# DYNEIDDWYR O GYMRU

## ANEURIN 'NYE' BEVAN (1897-1960)

Mab i löwr oedd Aneurin Bevan, a aned yn Nhredegar ym 1897. Yn cael ei `nabod gan lawer fel 'Nye', aeth ymlaen i fod yn wleidydd poblogaidd ac uchel ei barch, yn cael ei gofio heddiw yn bennaf am ddod â'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol i fodolaeth - gan wella bywyd miliynau.

Gadawodd Nye yr ysgol yn 13 a dechreuodd weithio ar unwaith yn y diwydiant glofaol, yn union fel ei dad a'i dad-cu o'i flaen. Drwy hyn dechreuodd ymwneud â gweithredu gwleidyddol, yn cefnogi amodau gwaith gwell a mwy diogel i'w gydweithwyr. Etholwyd ef gyntaf i'r Senedd ym 1929, yn AS dros Lyn Ebwy. Daeth Nye yn ddiweddarach yn Weinidog Iechyd a Thai, gan oruchwylio creu'r GIG ym 1948, gan ddarparu gofal iechyd rhad ac am ddim i bawb. Cyn hyn, roedd rhaid i lawer dalu er mwyn derbyn triniaeth feddygol, yn aml yn gorfod aros amser maith a'r gwasanaethau'n amrywio o le i le.

Bu sgil-effeithiau'r Ail Rhyfel Byd hefyd yn galed, yn effeithio pobl, ysbytai a thai. Roedd Nye yn credu'n gryf na allai unrhyw gymdeithas alw ei hunan yn wareiddiedig tra roedd pobl yn methu derbyn gofal iechyd oherwydd diffyg arian. Ysgogodd ei gred y dylai holl fodau dynol dderbyn urddas a diogelwch ei waith i greu gwasanaeth iechyd fyddai'n helpu pawb, waeth be bynnag oedd eu cyfoeth neu gefndir. Yn dilyn ei farwolaeth ym 1960, disgrifiodd ei wraig – y gwleidydd Jennie Lee - ef fel 'dyneiddiwr mawr a lleolwyd ei grefydd yng ngharu ei gyd-ddyn a cheisio'u gwasanaethu'.





Aneurin Bevan a Jennie Lee, 1952 gan Geoff Charles. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. CC BY-NC-ND 2.0

Aneurin Bevan, Gweinidog Iechyd, ar ddiwrnod cyntaf y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol, 5 Gorffennaf1948 yn Park Hospital, Davyhulme, ger Manceinion.

 © HUMANISTS UK 2022

Hafina Clwyd gan Delyth Fletcher. Casgliad y Werin Cymru. Trwydded Archif Greadigol

## HAFINA CLWYD
(1936–2011)



Roedd Hafina Clwyd yn athrawes ac awdures gafodd ei disgrifio fel 'un o'r newyddiadurwyr benywaidd bywiocaf a gynhyrchwyd erioed yng Nghymru'. Fe'i ganwyd yng Ngwyddelwern, yn ferch i ffermwr, ac aeth ymlaen i dderbyn hyfforddiant i fod yn athrawes addysg grefyddol – er iddi fod yn anghrediniwr.

Cyfareddwyd Hafina gan hanes ac fe hoffai lenyddiaeth: cyhoeddodd 11 llyfr (llawer ohonynt yn seiliedig ar ei dyddiaduron ei hunan) ac hefyd golygodd Welsh Family History: A Guide to Research. Fel newyddiadurwraig, roedd hi'n gefnogwr brwd o'r iaith Gymraeg, ac hyd yn oed yn ystod ei blynyddoedd yn byw yn Llundain roedd hi'n weithgar mewn sawl cymdeithas Gymreig. Un o rhain oedd y Clwb Llyfrau, arweiniodd at greu'r Cyngor Llyfrau Cymreig ym 1961, elusen sy'n cefnogi cyhoeddi yng Nghymru ac yn hybu darllen er mwyn pleser.

Fel awdur ac fel person, adnabyddid Hafina yn ffraeth, doniol, gwybodus ac heb ofn i ddatgan ei barn. Cefnogodd bob math o weithgareddau diwylliannol yng Nghymru, yn arbennig yn Rhuthun (lle bu'n byw o 1979), yn cynnwys llenyddiaeth, drama, crefftau a hanes teuluol. Pan fu farw Hafina yn 2011, rhoddwyd angladd ddyneiddiol iddi, yr oedd hithau wedi ei threfnu ei hunan, i ddathlu bywyd cyfoethog wedi ei wreiddio mewn diwylliant a chymuned.



Senedd Cymru. CC BY 2.0

## RHODRI MORGAN (1939–2017)

Ganwyd Rhodri Morgan yng Nghaerdydd, yn fab i ddarlithydd prifysgol ac athrawes. Roedd Rhodri yn blentyn clyfar a symudodd ar garlam trwy'r ysgol, yn y pen draw yn ennill ysgoloriaeth i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen. Doedd e ddim yn hoff iawn o fod yno, ond graddiodd mewn Gwleidyddiaeth, Athroniaeth ac Economeg ac aeth ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Harvard yn America. Pan ddychwelodd, dechreuodd weithio i Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (sy'n darparu addysg i oedolion) ac, er iddo ymuno â'r Blaid Lafur, parhaodd i weithio mewn llywodraeth leol am sawl blwyddyn cyn dod yn wleidydd.

Daeth Rhodri yn AS ym 1987 ac yn Brif Weinidog Cymru yn 2000. Fel Prif Weinidog cafodd ei adnabod am ddangos y gallai gwleidyddion o wahanol bleidiau gydweithio, ac am ddod â chynrychiolwyr o wahanol gredoau crefyddol at ei gilydd i adeiladu cydberthnasau a chynyddu dealltwriaeth. Adnabyddir y fenter hon heddiw fel y Fforwm Cymunedau Ffydd. Credai Rhodri yn, a helpodd i brofi effeithiolrwydd, 'gwneud pethau yn y ffordd Gymreig': yn seiliedig ar gydweithio yn hytrach na chystadlu. Rhoddodd y gorau o fod yn Brif Weinidog yn 2009 ac ymddeolodd o'r Cynulliad yn 2011.

Angladd Rhodri, yn 2017 yn y Cynulliad, oedd yr angladd ddyneiddiol gyhoeddus gyntaf yn y Deyrnas Unedig ac fe fynychodd cannoedd o bobl oedd am dalu eu teyrngedau i Rhodri – yn cael ei gofio fel 'tad y genedl'.



 © HUMANISTS UK 2022

## MILLICENT MACKENZIE
(1863-1942) - Athro Prifysgol ac Etholfreintiwr

Roedd Millicent Mackenzie yn Athro Prifysgol ac ymgyrchydd dros hawliau menywod, a oedd yr Athro Prifysgol benywaidd gyntaf yng Nghymru a hi oedd y fenyw gyntaf yng Nghymru i sefyll mewn etholiad i'r Senedd. Roedd hi'n un o Is-Lywyddion cyntaf Dyneiddwyr y DU (pan oedd yn parhau i gael ei alw yn Undeb Cymdeithasau Moesegol). Roedd Millicent Mackenzie yn hyrwyddwraig selog addysg moesol, yn hytrach nag hyfforddiant crefyddol, mewn ysgolion. Canolbwyntiodd hyn ar ddysgu plant sut i fod yn ddinasyddion da, gan ddefnyddio rhesymau y gellid eu deall gan bawb, os oeddynt wedi eu magu gyda chefndir crefyddol neu beidio.





Elaine Morgan © Monumental Welsh Women

## ELAINE MORGAN (1920–2013) - awdures

Roedd Elaine Morgan yn awdures a ysbrydolodd filoedd o bobl ledled y byd gyda'i syniadau am hanes bodau dynol a'i storïau am bob math o bobl. Wedi ei geni ym Mhontypridd, roedd Elaine Morgan yn ferch i löwr. Enillodd ysgoloriaeth i Brifysgol Rhydychen ac aeth ymlaen i fod yn awdures enwog llyfrau ac ar gyfer y teledu. Adnabyddid hi fel storïwraig o fri oedd yn diddanu ac ysbrydoli.

## AUDREY JONES (1929–2014) - athrawes ac ymgyrchydd dros hawliau menywod

Ganwyd Audrey Jones yn Swydd Hertford, Lloegr, ond ymgartrefodd ym Mro Morgannwg yn y 1950au. Erbyn y 1980au, roedd hi wedi dod yn ddirprwy brifathro ysgol ym Mhenarth (oedd yn anarferol i fenyw ar y pryd) ac yn hyrwyddwraig addysg i ferched. Un o'i disgyblion oedd yr athletwraig Paralympaidd Tanni Grey-Thompson, a'i disgrifiodd fel 'athrawes anhygoel' ac yn ddylanwad mawr. Helpodd Audrey Jones i sefydlu Cynulliad Menywod Cymru (CMC) a siaradodd ar draws y byd yn gefnogol i gydraddoldeb menywod. Hoffai hefyd gelfyddyd a cherddoriaeth.

## DANNIE ABSE (1923–2014) - meddyg a bardd

Roedd Dannie Abse yn feddyg, bardd ac awdur a ddywedodd: 'Rwy'n hoffi meddwl fy mod yn fardd, a Meddyginiaeth yw fy hobi ddifrifol'. Yn ei farddoniaeth, defnyddiodd Abse ei hunaniaeth Gymreig, ei yrfa feddygol a'i gefndir Iddewig, ac enillodd nifer o wobrau. Gwelodd farddoniaeth fel 'math o ganu', a helpodd i wneud bywyd go iawn - hyd yn oed pan oedd yn galed neu drist - yn fwy hardd. Roedd ei frawd Leo yn gyfreithiwr ac AS, ac yn ddyneiddiwr fel ef. Helpodd ymgyrchu Leo wella hawliau pobl hoyw, gwneud ysgariad yn haws i gyplau anhapus, ac fe gyfrannodd at ddiddymu'r gosb eithaf (dienyddiad).



## ROBERT THOMAS (1926–1999) - cerflunydd

Roedd Robert Thomas yn gerflunydd a aned yng Nghwmparc yng Nghwm Rhondda. Hoffai yn arbennig greu cerfluniau o bobl yr edmygai eu syniadau a'u gorchestion, gan helpu mwy o bobl i ddysgu am a chael eu hysbrydoli ganddynt. Roedd rhain yn cynnwys pobl enwog - fel y cyd-ddyneiddiwr Nye Bevan, a greodd y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol - a phobl gyffredin, fel ei gerflun o Deulu Glöwr. Mae llawer o ddyneiddwyr yn credu nad oes bywyd tragwyddol, ond beth all oroesi yw'r effaith a gawsom ar bobl eraill a'r cyfraniadau a wnaethom i gymdeithas.

 © HUMANISTS UK 2022